Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Vaughan Gething AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a
Chwaraeon

7 Mehefin 2017

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet,

Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Ionawr 2017, mewn ymateb i adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon o ran parodrwydd ar gyfer y gaeaf. Yn eich ymateb gwnaethoch gyntuno i ddarparu gwybodaeth ddilynol mewn perthynas â nifer o argymhellion ac rwy'n ysgrifennu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y rhain.

Yn eich ymateb i'n hargymhelliad y dylid rhoi trefniadau ar waith i werthuso effeithiolrwydd pob ymgyrch Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag iechyd yn ystod y gaeaf ac y dylid cyhoeddi'r hyn a ddysgwyd yn gyflym (argymhelliad 3), gwnaethoch gadarnhau bod trefniadau ar waith i werthuso effeithiolrwydd yr ymgyrch Dewis Doeth yn ystod y gaeaf diwethaf. Gwnaethoch roi gwybod hefyd y byddai ymchwil gymdeithasol yn cael ei wneud drwy ddefnyddio Omnibws Beaufort ac y byddai'r gwerthusiad hwn ar gael yn y Gwanwyn 2017. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y canfyddiadau a gafwyd yn y ddau ddarn o waith, a hefyd y manylion ynglŷn â'r modd y bwrir ymlaen i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad hwn yn y gwaith cynllunio a wneir drwy gydol y flwyddyn yn y dyfodol, gan gynnwys yr ymgyrch ar gyfer y gaeaf hwn.


Gwnaethoch gyntuno hefyd i roi manylion am gynnydd yn erbyn targedau ar gyfer y buddsoddiad ychwanegol o £50 miliwn gan Lywodraeth Cymru i ymdopi â'r pwysau yn ystod y gaeaf.



Rydym hefyd yn tynnu eich sylw at y pryderon a fynegwyd yn ddiweddar gan Goleg Brenhinol y Meddygon a Choleg Brenhinol Meddygaeth Frys Cymru. Mae Coleg Brenhinol y Meddygon hefyd yn poeni nad yw byrddau iechyd wedi dysgu o brofiad y gorffennol mewn perthynas â'r parodrwydd ar gyfer gaeaf 2016–17. Mae Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys Cymru hefyd wedi rhoi gwybodaeth am y pwysau yn ystod y gaeaf o ran Adrannau Achosion Brys yng Nghymru. Yn y wybodaeth maent yn dweud 'yn ystod gaeaf 2016–17 bu pwysau eithafol ar y gwasanaethau a arweiniodd at ddirywiad yn y safonau 4–awr, adrannau gorlawn a 'bloc ymadael', gan effeithio ar ansawdd cyffredinol y gofal a gafwyd gan gleifion'.

Byddai o gymorth pe gallech roi'r wybodaeth hon erbyn 5 mis Gorffennaf. Byddwn hefyd yn croesawu cael sicrwydd gennych fod y gwaith cynllunio ar gyfer y gaeaf hwn eisoes wedi dechrau mynd rhagddo.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dai Lloyd'.

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/P/VG/2175/17

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Gorffennaf 2017

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mehefin 2017 yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am amryw o argymhellion o adroddiad *Ymchwiliad i barodrzydd ar gyfer y gaeaf 2016/17* y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Mae fy ymatebion i bob un o'r pwyntiau a godwyd gennych i'w gweld isod.

Argymhelliad 3. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod trefniadau ar gael i werthuso pa mor effeithiol yw holl ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag iechyd dros y gaeaf, gan gyhoeddi'r gwersi a ddysgir yn fuan. Dylai hefyd sicrhau bod trefniadau ar gael i sicrhau bod yr holl system yn dysgu o'r gwaith gwerthuso hwn.

Yr ymgyrch *Dewis Doeth* yw prif ddull Llywodraeth Cymru o rannu negeseuon â dinasyddion ar sut i baratoi yn y ffordd orau ar gyfer cyfnod y gaeaf a pha wasanaeth i'w ddefnyddio ar gyfer eu hanghenion iechyd dros y gaeaf. Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd eleni, mae negeseuon yn cyrraedd y cyhoedd ynglŷn â chamau y gallant eu cymryd i ofalu ar ôl eu hunain a defnyddio'r Adran Argyfwng yn briodol. Ers i'r ymgyrch gael ei lansio yn 2011-12, mae cynnydd o 13% wedi bod yn lefel y presenoldeb mewn Unedau Mân Anafiadau a chwymp o tua 17% yn lefel y presenoldeb yn yr Adran Argyfwng ymhlith y garfan oedran 17-24.

Byddwn yn gwerthuso pob ymgyrch gyfathrebu yn derfynol yn erbyn yr amcanion a bennwyd ar ddechrau'r ymgyrch ac, yn ogystal â hynny, cafodd ymchwil newydd ei chomisiynu ar ddiwedd yr ymgyrch flynyddol *Dewis Doeth* ym mis Mawrth 2017 fel rhan o Arolwg Omnibws Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae disgwyl i adroddiad yn trafod y canfyddiadau manwl gael ei gyhoeddi yn yr haf 2017 ar wefan Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru. Yn unol â phrotocol y wefan, hyd nes iddynt gael eu cyhoeddi, dim ond fewnol y gellir defnyddio'r ffigurau tan iddynt gael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, roedd y canfyddiadau cychwynnol yn gadarnhaol a byddwn yn defnyddio'r un cwestiynau ar ddiwedd yr ymgyrch nesaf i fesur ein cynnydd. Bydd y canfyddiadau hefyd yn cael eu defnyddio i lywio'r ymgyrch ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r gwaith cynllunio eisoes wedi dechrau a bydd hyn yn cynnwys meithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid, a'u cynnwys, a bydd ymgyrchoedd cysylltiedig yn cael eu cynnal hefyd, gan gynnwys gan Age Cymru (Lles drwy Wres) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (Curwch Ffliw)

Bydd y canfyddiadau a'r cynlluniau a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer *Dewis Doeth* y gaeaf nesaf yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod grŵp llywio'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb Ei Drefnu er mwyn ystyried sut y gellir datblygu negeseuon ymhellach ar gyfer y gaeaf nesaf.

Argymhelliad 4. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd yn ôl i ni ddiwedd y chwarter nesaf i roi manylion y cynnydd sydd wedi'i wneud i gyrraedd y targedau ar gyfer buddsoddiad ychwanegol Llywodraeth Cymru o £50 miliwn tuag at ymdopi â phwysau yn ystod y gaeaf eleni.

Cafodd y £50 miliwn ei ddsbarthu i fyrddau iechyd yng Nghymru (y ceir y manylion yn y tabl isod) er mwyn helpu i gynnal gwell perfformiad dros gyfnod y gaeaf. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y cyllid ond yn cael ei ddefnyddio i wella perfformiad, cafodd £5.1 miliwn ei adfachu oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar ddiwedd y flwyddyn gan nad oedd wedi cyflawni yn erbyn y cynlluniau y cytunwyd arnynt.

Bwrdd Iechyd Lleol	Wedi'i rannu yn ôl cyfran deg (£m)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	9.33
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	9.97
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	11.09
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	7.50
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	5.80
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	6.31
Cymru Gyfan	50.00

Dros gyfnod y gaeaf, roedd perfformiad o ran amser aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn well nag yr oedd y flwyddyn flaenorol:

- ddiwedd mis Mawrth 2017 roedd y perfformiad 26 wythnos yn 88%, sydd 1.2 pwynt canran yn uwch na mis Mawrth 2016
- roedd y rhifau 36 wythnos 28% yn llai na mis Mawrth 2016 a'r gorau a welwyd ers mis Mawrth 2014
- roedd amseroedd aros am brofion diagnostig wyth wythnos ar y lefel isaf ers chwe blynedd
- roedd perfformiad 62 diwrnod canser y gorau a welwyd ers mis Tachwedd 2014.

O ran triniaethau wedi'u gohirio, roedd 564 (4%) yn llai o ohiriadau ar ddiwrnod cynnal triniaeth arfaethedig neu'r diwrnod cyn hynny dros gyfnod y gaeaf 2016-17 na'r gaeaf blaenorol, ac roedd y gyfran o gleifion y gohiriwyd eu triniaeth oherwydd diffyg gwely, naill ai ar y diwrnod neu'r diwrnod cyn hynny, 965 (38%) yn is nag yn y gaeaf 2015-16.

Roedd ymateb ambiwlansys, trosglwyddo cleifion a pherfformiad yn erbyn safonau pedair a deuddeg awr yn gyffredinol well nag yn ystod 2015-16 er gwaethaf, ar brydiau, lefelau o alw nas gwelwyd mo'u tebyg o'r blaen. Er enghraifft, ymatebodd y gwasanaeth ambiwlans i 77.9% o alwadau Coch o fewn 8 munud (12.2% yn well na mis Mawrth 2016); bu gwelliant o 4.4% yn y perfformiad yn erbyn y targed 4 awr; bu cwmp o 27% yn y perfformiad yn erbyn y targed o 12 awr; a bu cwmp o 45% yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo cleifion o'r ambiwlans i'r ysbyty. Rwy'n dal i ddisgwyl gweld mwy o gadernid a gwelliant o ran perfformiad a chanlyniadau.

Adborth ar gyfer y Pwyllgor gan Goleg Brenhinol y Meddygon a'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys

Ym mis Chwefror, comisiynodd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb Ei Drefnu, adolygiad o allu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i wrthsefyll pwysau'r gaeaf yn 2016-17. Mae'r adolygiad hwnnw wedi dod i ben erbyn hyn a bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn hir a fydd yn gymorth i'r gwaith cynllunio ar gyfer y gaeaf nesaf.

Mae Coleg Brenhinol y Meddygon a'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r adolygiad. Roedd ymateb Coleg Brenhinol y Meddygon yn awgrymu bod llawer o aelodau yn teimlo bod gwersi wedi cael eu dysgu ond roedd hefyd yn dweud yn glir bod gwaith i'w wneud o hyd i helpu i wella'r gallu i wrthsefyll pwysau ar gyfer y gaeaf nesaf. Roedd y Coleg yn glir hefyd y dylid cynnwys clinigwyr yn gynnar yn y broses gynllunio. Fel rydych yn gwybod, mae'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys yn aelod o Fwrdd y Rhaglen Gofal heb Ei Drefnu.

Yn yr un modd, teimlai'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys fod ymdrechion pendant wedi cael eu gwneud i wella gallu i wrthsefyll pwysau'r gaeaf dros y blynyddoedd diwethaf, er bod pwysau ar wasanaethau o hyd, a nododd amryw o feysydd lle gellid gwella. Edrychodd yr adolygiad ar y dystiolaeth hon, ynghyd ag adborth gan gyrff proffesiynol, staff, cleifion ac arweinwyr systemau eraill wrth ddatblygu'r adroddiad a'r argymhellion i gefnogi gwelliannau ar draws y system gyfan. Ysgrifennodd Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru i'r Byrddau Iechyd Lleol ym mis Ebrill i roi gwybod iddynt am y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amser yn cael ei golli wrth baratoi ar gyfer y gaeaf nesaf.

Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad fis Gorffennaf 2017 a byddaf yn rhannu copi â'r Pwyllgor yr adeg hynny.

Byddwn yn disgwyl i'r gwaith pwysig hwn gefnogi sefydliadau wrth iddynt gynllunio eu trefniadau. Bydd hyn yn sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu a chymau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau ein bod yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf ac yn gwella ymhellach y gallu i wrthsefyll pwysau'r gaeaf, gan wneud hynny mewn modd sy'n gynaliadwy.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Cc: Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol



DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru Y Diweddraf
DYDDIAD	6 Gorffennaf 2017
GAN	Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r buddsoddiad a wneir mewn addysg i weithwyr iechyd proffesiynol ac mewn datblygu'r gweithlu. Cafodd yr adolygiad hwnnw ei arwain gan Mel Evans, a gyhoeddodd adroddiad dilynol yn 2015, ac ynddo gwnaed nifer o argymhellion - un o'r rheini oedd sefydlu un corff i gomisiynu, cynllunio a datblygu addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r GIG yng Nghymru. Derbyniwyd yr argymhelliad hwnnw gan Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, ond dywedodd fod angen gwneud gwaith pellach i ystyried cynigion manwl ar gyfer y corff sengl newydd. Cytunodd yr Athro Robin Williams, CBE i fwrw ati â'r gwaith hwn. Cafodd yr Adroddiad hwn ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2016. Cadarnheais y byddai'r corff newydd yn cael ei sefydlu ym mis Ebrill 2018.

Roedd yr adroddiadau a oedd yn sail i'r gwaith hwn - Adroddiad Evans ac Adroddiad Williams - yn ystyried ystod eang o weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r agenda adnoddau a chynllunio'r gweithlu. Er bod nifer o sefydliadau ar draws Cymru yn rhan o'r trefniadau presennol, mae dau brif sefydliad yn arbennig, sef Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu (WEDS) GIG Cymru a'r Ddeoniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, yn gwneud rhan helaeth o'r gwaith y bydd disgwyl i'r corff newydd ei wneud. Bydd symud at gorff sengl yn creu cyfleoedd i ddatblygu cryfderau y Ddeoniaeth a WEDS, gan ddysgu o fannau eraill hefyd. Bydd y dull gweithredu yn:

- Symleiddio strwythurau a phrosesau i annog mwy o gydweithio ar draws asiantaethau, gan sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran cost;
- Datblygu dull gweithredu sefydliadol cydlynol a phenodol all ysgogi dulliau gweithredu ar gyfer Cymru gyfan;
- Cael gwared ar rwystrau artiffisial - rhai strwythurol ac ariannol;
- Sicrhau'r gwerth mwyaf o fuddsoddiadau a wneir mewn addysg a hyfforddiant ym maes iechyd yng Nghymru

Dros y chwe mis diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r prif sefydliadau sy'n cymryd rhan, yn ogystal â'r sector yn ehangach, i ystyried y corff newydd a manylion sut y bydd yn gweithredu. Rwyf bellach yn gallu ddiweddarau Aelodau am y penderfyniadau rwyf wedi'u gwneud hyd yma, o ganlyniad i'r trafodaethau parhaus hyn. Yn gyntaf, i adlewyrchu rôl y sefydliad newydd, rwyf wedi penderfynu mai ei enw fydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW).

Mae llawer o waith i'w wneud o hyd rhwng nawr a mis Ebrill 2018, ond rwy'n hyderus, gydag ymrwymiad partneriaid, y bydd HEIW mewn sefyllfa i gael effaith gadarnhaol yng Nghymru o'r flwyddyn nesaf ymlaen, ac i chwarae ei ran wrth gyflawni canlyniadau gwell i gleifion.

Swyddogaethau a chylch gwaith

Yn ei adroddiad, nododd Robin Williams set ofynnol o swyddogaethau ar gyfer y corff newydd, sef:

- cynllunio strategol ar gyfer y gweithlu - rhoi eglurder ar sut y bydd prosesau cenedlaethol a lleol yn cydweithio;
- comisiynu addysg - ar gyfer pob agwedd ar y gweithlu, gweithio gyda sefydliadau'r GIG i sicrhau bod adnoddau addysg a hyfforddiant ar lefel genedlaethol a lleol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol - i gynnwys addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig;
- cynllunio'r rôl sefydliadol - nodi'r rolau sy'n ofynnol o fewn y GIG i fynd i'r afael â newidiadau ym modelau'r gweithlu a newidiadau i'r ffordd y caiff gofal ei ddarparu;
- gyrfaoedd yn y GIG - gweithio gyda sefydliadau allweddol i sicrhau bod yr ystod lawn o yrfaedd y GIG yn cael ei hyrwyddo.

Yn ogystal, gallaf gadarnhau y bydd HEIW hefyd yn gyfrifol am ddarparu dull strategol ar gyfer yr agenda ehangu mynediad - i nodi a gweithredu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer unigolion o bob oed i gael gafael ar y rhaglenni priodol, boed hynny yn academaidd neu'n alwedigaethol, er mwyn dilyn gyrfa yn y GIG. Bydd HEIW yn sicrhau bod systemau ar waith i godi ymwybyddiaeth o yrfaedd posibl yn y GIG, rhaglenni profiad gwaith cydlynol, cyfleoedd am brentisiaethau a mwy o lwybrau hyfforddi hyblyg.

Yn sail i'r gwaith hwn, bydd yn ofynnol i HEIW gael swyddogaeth well o ran gwybodaeth am y gweithlu a fydd yn adeiladu ar y system bresennol o fodelu'r gweithlu, sydd ar gael o fewn WEDS ar hyn o bryd.

Rwyf wedi cytuno mai dyma fydd swyddogaethau craidd HEIW. Fodd bynnag, rwyf wedi cael fy narbwylllo bod dod â WEDS a'r Ddeoniaeth ynghyd mewn corff newydd, strategol yn gyfle unigryw i wneud mwy.

Bydd HEIW yn rhoi arweinyddiaeth ar draws ystod o feysydd pwysig. Bydd hyn yn cynnwys gosod yr agenda ar gyfer datblygu ar lefel uchel, gan sicrhau bod arweinwyr y dyfodol, rhai clinigol ac anghlinigol, yn cael eu hadnabod, a'u cefnogi i wneud yn siŵr bod ganddynt y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i fynd i'r afael â'r heriau y byddant yn eu hwynebu, fel rhan o ddull gweithredu Tîm Cymru i ddarparu system gofal iechyd gynaliadwy yng Nghymru. Bydd hyn yn golygu cydweithio ag eraill, er enghraifft Academi Wales, i ail-ddylunio'r cynnig a wnawn ar draws Cymru drwy ein Rhaglen i Raddedigion y GIG.

Mae rhai unigolion wedi awgrymu y gallai HEIW ymgymryd â chyfrifoldebau ehangach ar gyfer datblygiad parhaus gweithwyr iechyd proffesiynol, gan hyd yn oed arwain dull cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Er fy mod yn deall y cynnig hwn, mae'n bwysig i fyrdau iechyd arwain y gwaith o ddatblygu eu staff. Bydd HEIW yn gosod y disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff, ond y byrdau iechyd a'r ymddiriedolaethau fydd yn arwain ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus staff proffesiynol. Fodd bynnag, hoffwn sicrhau bod gan HEIW y cymhwysedd a'r gallu i ddatblygu a darparu hyfforddiant.

Bydd creu HEIW yn cynrychioli dull strategol newydd o ddatblygu gweithlu iechyd Cymru, nawr ac ar gyfer y dyfodol. Wrth gwrs, bydd angen iddo gael yr adnoddau cywir i fod yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae hynny'n golygu dwyn ynghyd o fewn y corff y cronfeydd a ddefnyddiwn i gefnogi lleoliadau gwaith is-raddedigion meddygol a deintyddol, a'r bwrsariau rydym yn eu cynnig i'r rheini sy'n hyfforddi, megis myfyrwyr nyrsio. Bydd hefyd yn golygu dwyn ynghyd o fewn HEIW, y rheini sydd ar hyn o bryd yn ymgymryd â swyddogaethau tebyg mewn cyrff eraill. Er enghraifft, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ystyried a ddylai elfennau o Ganolfan Addysg Fferyllol Cymru i Raddedigion, Canolfan Addysg Optometrig Ôl-raddedig Cymru ac Uned Cysylltu'r GIG gael eu cynnwys o fewn HEIW o dan y trefniadau newydd.

Yn ogystal, bydd HEIW yn rhoi cyfle inni gydlynu ein gwaith ar draws Cymru gyfan i wella gwasanaethau iechyd, a byddaf yn disgwyl i'r sefydliad newydd weithio gyda chynllun 1000 o Fywydau a sefydliadau GIG Cymru i ddod â ffocws mwy strategol i'r gwaith ym maes gwella.

Bydd HEIW yn rhoi cyngor proffesiynol i Lywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â'i swyddogaethau.

Yn olaf, byddaf yn disgwyl i HEIW weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn y meysydd gwaith perthnasol i ddatblygu safbwynt integredig o anghenion y gweithlu nawr ac yn y dyfodol, ar draws y maes iechyd a'r maes gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys cymorth a datblygiad parhaus o ran cyfleoedd gyrfa ar y cyd i weithwyr yn y ddau sector.

Llywodraethu

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) fel Awdurdod Iechyd Arbennig gan ddefnyddio pwerau a bennir yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Byddaf yn cyflwyno deddfwriaeth i gyflawni hyn mewn dau gam, gan ddechrau gyda gorchymyn a rheoliadau dros y misoedd nesaf, i'n galluogi i fwrw ymlaen i recriwtio bwrdd annibynnol a fydd yn goruchwylio gwaith y corff.

Bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau ar y broses o recriwtio aelodau ar gyfer y Bwrdd a'r Prif Weithredwr yn yr hydref. Bydd hyn yn caniatáu i drefniadau llywodraethu gael eu sefydlu cyn i'r sefydliad newydd ddechrau ar ei waith.

Gan ystyried pwysigrwydd y newidiadau hyn, a'r amserlenni, rwyf wedi penderfynu penodi Dr Chris Jones yn Gadeirydd dros dro o 1 Hydref ymlaen, i arwain y broses o sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru, yn amodol ar ewyllys y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sefydlu HEIW. Drwy benodi Chris, bydd gan HEIW arweinydd cryf wrth i'r corff ddatblygu. Mae ganddo gyfoeth o brofiad, gan gynnwys ei rôl lwyddiannus fel Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a fydd yn dod i ben ddiwedd mis Medi. Rhwng nawr a'r adeg pan fydd HEIW yn cael ei sefydlu'n ffurfiol, bydd Chris yn eistedd fel aelod ar y Bwrdd Rhaglen sy'n rheoli'r cyfnod sefydlu. Cadeirydd y Bwrdd yw Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Llywodraeth Cymru. Fel aelod o'r bwrdd hwnnw, bydd Chris yn eistedd ochr yn ochr ag aelodau sydd ag amrywiol arbenigeddau, gan gynnwys cynrychiolwyr Prif Weithredwyr GIG Cymru a chyflogwyr y sefydliadau sy'n cael eu heffeithio.

Mae penodi Chris yn dangos pa mor bwysig rwy'n ystyried y flwyddyn sydd i ddod, wrth inni sefydlu HEIW, a'i le o fewn y GIG yng Nghymru. Bydd profiad Chris yn y GIG yn allweddol yn hynny o beth, gan siapia cydberthnasau newydd rhwng HEIW a byrddau ac ymddiriedolaethau GIG Cymru. Wrth gwrs, bydd angen i HEIW gael arweinyddiaeth ar gyfer y tymor hwy. Felly, byddaf yn cynnal proses penodiadau cyhoeddus lawn i sicrhau bod Cadeirydd parhaol yn cael ei benodi cyn diwedd mis Medi 2018.

Pobl

Fy mhrif flaenoriaeth dros y cyfnod sydd i ddod fydd i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r staff sy'n cael eu heffeithio gan y newid i HEIW, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu deall a'u trin mewn modd sensitif. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn digwydd i rai, ac rwyf am sicrhau bod y newidiadau hynny yn cael eu gwneud gyda staff, ac nid iddyn nhw. Wrth gwrs, bydd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) sy'n amddiffyn staff, yn rhoi tawelwch meddwl iddynt, a byddwn yn gweithio gyda nhw a'u hundebau llafur drwy gydol y broses.

Un o'r newidiadau pwysicaf fydd ble y bydd pobl yn gweithio. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod HEIW yn sefydliad ar gyfer Cymru gyfan, gan weithio gyda darparwyr addysg a'r sector iechyd ar draws y wlad. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ymwybodol o leoliadau presennol staff a fydd yn dod at ei gilydd i greu HEIW - ac mae'r rhan fwyaf yng Nghaerdydd neu yn Nantgarw. Bydd y staff hyn yn hollbwysig wrth inni siapio'r sefydliad newydd, ac felly, rwyf wedi penderfynu mai yn y de-ddwyrain y dylai prif leoliad HEIW fod. Byddaf yn cyhoeddi'r union leoliad yn yr hydref.

Rhan o GIG Cymru

Bydd y sefydliad newydd yn gorff newydd o fewn teulu GIG Cymru, a bydd yn gweithio ochr yn ochr â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar Dîm Gweithredol GIG Cymru. Cyflogeion y GIG fydd y staff, a lle y bo'n bosibl, bydd yr holl systemau a phrosesau yn rhai GIG Cymru. Bydd HEIW yn manteisio ar lwyddiant aruthrol y dull Cydwasanaethau, ynghyd â gweddill GIG Cymru.

Bydd HEIW, drwy weithio ochr yn ochr â chyrrff iechyd eraill yng Nghymru, yn gallu sicrhau newid sylweddol yn y gefnogaeth a rown i weithwyr proffesiynol. Drwy gael gwared ar rwystrau artiffisial, gall HEIW wneud mwy o waith i hybu diwylliant o gydweithio ar draws y sector iechyd yng Nghymru, gan sicrhau mai lles cleifion yw blaenoriaeth ein holl waith. Wrth gwrs, ni allwn ganiatáu i'r cyfnod sefydlu darfu ar y gwaith arbennig sy'n cael ei wneud ar draws Cymru ar hyn o bryd i recriwtio, hyfforddi a datblygu ein gweithwyr proffesiynol. Ni fyddaf yn disgwyl unrhyw ostyngiad yn y canlyniadau da a gyflawnwyd eleni.

Ymgynghori

Credaf fod y datganiad hwn yn ein symud gam mawr ymlaen yn y gwaith o sefydlu HEIW. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud ac i'w ystyried o hyd rhwng nawr a mis Ebrill 2018. Bydd y sefydliad newydd ond yn llwyddo os bydd pawb yn y sector yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau hynny. Rwy'n falch bod bwrdd rhaglen, sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o'r sector, yn goruchwyllo'r cyfnod sefydlu, ac yn cael cymorth ffrydiau gwaith penodol sy'n dod â gwahanol arbenigeddau ynghyd i ymdrin â meysydd pwysig megis datblygiad sefydliadol, llywodraethiant a chyllid. Dylai'r trefniadau hyn, ynghyd â'r digwyddiadau pwysig i randdeiliaid sy'n cael eu trefnu gan fy swyddogion, sicrhau bod pobl yn gwybod beth sy'n digwydd a sut i gyfrannu at y broses.

Yn unol â'r argymhellion o'r Adroddiad Recriwtio Meddygol diweddar gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, byddaf yn cyhoeddi cynllun gweithredu ac amserlen ar gyfer sefydlu HEIW ym mis Medi eleni. Yna, byddaf yn cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni ynghylch ein cynigion manwl ar gyfer Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW).

Manylion Cyswllt

Gallwch gysylltu â thîm sefydlu Llywodraeth Cymru drwy:
AddysglechydCymru-HealthEducationWales@wales.gsi.gov.uk.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon